



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.  
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFN  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499  
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams  
E-bost / Email: [DylanWilliams@ynysmon.gov.uk](mailto:DylanWilliams@ynysmon.gov.uk)  
Ein Cyf / Our Ref: CSYM/PMO/NGETAoC2018  
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 22 Medi 2018

Mr H Jones  
Rheolwr Achos  
Yr Arolygaeth Gynllunio  
Seilwaith Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bryste  
BS1 6PN

Annwyl Mr Jones,

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 55**

**Cais gan National Grid Electricity Transmission plc am Orchymyn yn rhoi Caniatâd  
Datblygu ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru  
Cais ynghylch digonolrwydd yr ymgynghoriad**

**Rhif Cyfeirnod PINS: EN020015**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 07/09/2018 yn gwahodd Cyngor Sir Ynys Môn ("Cyngor Sir") i gyflwyno ei sylwadau ynglŷn â chydymffurfiaeth yr ymgeisydd ("NGET") ag Adran 42, Adran 47 ac Adran 48 Deddf Cynllunio 2008 ("y Ddeddf") wrth gynnal ymgynghoriad ar y Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru arfaethedig.

Mae'r canlynol yn amlinellu barn y Cyngor Sir ynglŷn â digonolrwydd:-

- a) Dull NGET o ddatblygu a chytuno ar Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol (yn amlinellu sut yr oeddent yn bwriadu ymgynghori ar eu cynigion), ac yn dilyn hynny, a gynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r Datganiad y cytunwyd arno (yn unol ag Adran 47 Deddf Cynllunio 2008);
- b) a wnaethon nhw ymgynghori â'r personau a'r awdurdodau yr oedd yn ofynnol iddynt ymgynghori â nhw (yn unol ag Adran 42 y Ddeddf); ac
- c) a wnaethon nhw gyflawni'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysebu a amlinellir yn y Ddeddf yn ddigonol?

Mewn termau syml, mae'r Cyngor Sir yn ystyried fod gofyn iddo ateb y cwestiwn "A yw'r National Grid wedi gwneud yr hyn y dywedodd y byddai'n ei wneud yn ei Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol"? Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod mai cais yn ymwneud â threfniadau gweithredol unig yw hwn, ond mae o hefyd wedi rhoi ei farn ynglŷn ag a oedd ymgynghoriad National Grid yn effeithiol ac a ymgysylltwyd yn ystyrlon â'r gymuned y bydd y cynnig yn effeithio arni.

Mae'r llythyr hwn (ynghyd â'r atodiadau a restrir isod), yn amlinellu ymateb y Cyngor Sir ynglŷn â Digonolrwydd yr Ymgynghoriad yn unol ag adran 55(b) y Ddeddf.

**Atodiad A:** Cronoleg Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais yr Ymgeisydd;

**Atodiad B:** Ymatebion CSYM i Ddatganiadau Ymgynghori Cymunedol NGET;

**Atodiad C:** Asesiad o Gydymffurfiaeth yr Ymgeisydd gyda'i Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol ei hun.

Nodwch fod yr ymateb hwn yn asesu methodoleg, dull a gweithrediad yr ymgeisydd mewn perthynas â'i ymgynghoriad cyn cyflwyno cais ac mae'n cael ei gyflwyno yn unig er mwyn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylid derbyn y cais.

## **1. Cydymffurfio ag Adran 47 – Dyletswydd i Ymgynghori â'r Gymuned**

Mae Adran 47 y Ddeddf yn amlinellu'r *'Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol'*. Mae'r is-adrannau perthnasol yn pennu'r gofynion canlynol:

- 1.1 Rhaid i'r ymgeisydd baratoi datganiad yn amlinellu sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori ar y cais arfaethedig gyda phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir.
- 1.2 Cyn paratoi'r datganiad, rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori â phob awdurdod lleol sydd o fewn adran 43(1) ynglŷn â'r hyn fydd yn cael ei gynnwys yn y datganiad.
- 1.3 Y dyddiad cau i'r ymgeisydd dderbyn ymateb awdurdod lleol i'r ymgynghoriad o dan is-adran (2) yw diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod yn dilyn y diwrnod y mae'r awdurdod lleol yn derbyn y dogfennau ymgynghori.
- 1.4 Yn is-adran (3) mae "y dogfennau ymgynghori" yn golygu dogfennau a ddarparwyd i'r awdurdod lleol gan yr ymgeisydd at ddibenion ymgynghori gyda'r awdurdod lleol o dan is-adran (2).
- 1.5 Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r ymgeisydd ystyried unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad o dan is-adran (2) a dderbyniwyd ganddo cyn y dyddiad cau a bennir yn is-adran (3).
- 1.6 Pan fydd yr ymgeisydd wedi paratoi'r datganiad, rhaid i'r ymgeisydd ei gyhoeddi -
  - i. mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yng nghyffiniau'r tir, ac
  - ii. mewn unrhyw ffordd arall a bennir.
- 1.7 Rhaid i'r ymgeisydd gynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r cynigion a amlinellir yn y datganiad.

Mae dull NGET o gynnal yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais wedi bod yn sylweddol, o ran amser a swmp y deunydd, gweler y gronoleg yn **Atodiad A** am fanylion. Ymgynghorwyd â CSYM ac ymatebodd y Cyngor ym mhob achos (**Atodiad B**). Glynwyd at yr amserlenni a bennwyd ac mae'r Cyngor yn fodlon fod gofynion is-adrannau (1.1), (1.2), (1.3) a (1.4) wedi eu cyflawni'n ddigonol.

Yn unol ag is-adran (1.5), cyflwynodd y Cyngor Sir ei safbwyntiau i NGET ynglŷn â'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol drafft cychwynnol yn ystod mis Ebrill 2016 ac eto, ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol drafft diwygiedig, yn ystod mis Awst 2016. Ymatebodd NGET i ddau lythyr y Cyngor Sir yn amlinellu ei ymateb a'i safbwynt ym mhob achos. Felly, mae'r Cyngor Sir yn fodlon fod NGET wedi ystyried y materion a godwyd gan y Cyngor Sir wrth ddrafftio ei Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol.

Yn unol ag is-adran (1.6), mae'r Cyngor Sir yn deall fod NGET wedi cyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol mewn nifer o bapurau newydd lleol yn ogystal â hysbysebu drwy ddulliau eraill megis ar wefannau, y cyfryngau cymdeithasol, ayb. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor Sir o'r farn fod NGET wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol yn ddigonol.

Yn unol ag is-adran (1.7) uchod, bu i NGET ymgynghori'n unol â'r cynigion yn eu Datganiad Ymgynghori Cymunedol (**gweler Atodiad C**) ac felly, mae'r Cyngor Sir yn fodlon fod NGET wedi cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sylfaenol Adran 47 Deddf Cynllunio 2008.

## **2. Cydymffurfio ag Adran 42 – Dyletswydd i Ymgynghori**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymgynghori â'r canlynol ynglŷn â'r cais arfaethedig-

- 2.1 unrhyw bersonau a bennir,
- 2.2 pob awdurdod lleol o fewn adran 43,
- 2.3 Awdurdod Llundain Fwyaf os yw'r tir yn Llundain Fwyaf, a
- 2.4 pob person sydd o fewn un neu fwy o'r categorïau a amlinellir yn adran 44.

Gall y Cyngor Sir gadarnhau yr ymgynghorwyd ag o, fel awdurdod lletyol, yn unol â'r Ddeddf.

O safbwynt sgôp yr ymgynghoriad, mae'r Cyngor Sir yn ystyried fod hepgor cynlluniau, manylion a mesurau lliniaru ynglŷn ag elfennau penodol o'r cynigion wedi golygu ei bod yn anodd i'r Cyngor Sir ac eraill ymateb yn llawn ac yn ystyrlon.

Mae pryder penodol ynglŷn â lefel y manylder a swmp y wybodaeth a ddarparwyd er mwyn galluogi preswylwyr a thirfeddianwyr i ddeall yn llawn effaith y datblygiad sy'n gysylltiedig â'r twnnel a'r adeilad pen twnnel. Awgrymodd y Cyngor Sir i NGET ym mis Chwefror 2018 y dylid cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu mewn perthynas â'r elfennau hyn yn y cynnig, er na chynhaliwyd ymgynghoriad o'r fath. Yn ogystal, ysgrifennodd y Cyngor Sir at NGET ar 27/06/18 a 29/06/18 i fynegi'r pryderon hynny unwaith eto.

Mae diffyg gwybodaeth ymgynghori fanwl o'r natur hwn wedi golygu nad yw'r Cyngor Sir, rhanddeiliaid na'r cymunedau a'r preswylwyr yr effeithir arnynt wedi gallu dod i farn yn seiliedig ar wybodaeth ynglŷn ag effeithiau tebygol y datblygiad, neu ystod y gofynion cynllunio neu fesurau lliniaru eraill fydd eu hangen er mwyn lleihau effeithiau penodol y cynllun i lefel dderbyniol. Er enghraifft, mae'r rhestr ganlynol (nad yw'n restr gynhwysfawr) yn cyfeirio at wybodaeth allweddol oedd yn ddiffygiol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad:

- i. Y Strategaeth Lliniaru Bioamrywiaeth y gofynnwyd amdani dro ar ôl tro mewn gweithgorau (e.e. y Gweithgor Thematig Ecoleg yn ystod mis Mawrth 2018), yn ogystal ag mewn ymatebion i'r Datganiad Amgylcheddol Drafft (llythyr dyddiedig 14/03/18). Ni ddarparwyd y strategaeth nes bod y cais yn cael ei gyflwyno.
- ii. O ran Treftadaeth Ddiwylliannol, ni dderbyniodd y Cyngor Sir adroddiadau wedi eu diweddarau ynglŷn â ffosydd prawf neu leiniau diwygiedig ac ar ardaloedd map cyn cyflwyno'r cais.
- iii. Yn ei ymateb i'r Datganiad Amgylcheddol Drafft dyddiedig 14 Mawrth 2018, mynegodd y Cyngor Sir bryderon ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan NGET a oedd â'r potensial i gynhyrchu effeithiau llai na'r rhai a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan fethodolegau eraill, a gydnabyddir yn broffesiynol. Roedd hyn yn lleihau gallu'r Cyngor i asesu'n llawn yr effeithiau amgylcheddol yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- iv. Mynegodd y Cyngor Sir bryder i NGET ym mis Mawrth 2018 nad oedd wedi cael gwybod ymlaen llaw na fyddai NGET yn cynnal asesiad o effaith o fewn y Prosiect yn y Datganiad Amgylcheddol Drafft. Codwyd pryderon gan y Cyngor ynglŷn â sgopio Pennod 10 (Amgylchedd Hanesyddol), yn arbennig mewn perthynas â lefel y manylder a ddarparwyd at ddibenion yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r dirwedd ac effeithiau gweledol.

### **3. Cydymffurfio ag Adran 48 – Dyletswydd i roi Cyhoeddusrwydd**

Mae Adran 48 y Ddeddf yn gosod Dyletswydd i roi Cyhoeddusrwydd mewn modd penodedig.


Mae Adroddiad Ymgynghoriad NGET yn darparu manylion ynglŷn â sut y mae wedi cydymffurfio ag Adran 48. Hysbysebwyd copi o'r rhybudd Adran 48 yn rhoi gwybod am ei fwriad i wneud cais am DCO. Gosodwyd hwn mewn nifer o bapurau newydd am gyfnod olynol o bythefnos. Yn ogystal, roedd y rhybudd yn y wasg yn gosod dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor Sir yn fodlon fod dyletswydd NGET i roi cyhoeddusrwydd o dan Adran 48 wedi ei weithredu.

## **Casgliad**

Er, fel y nodir uchod, fod y Cyngor Sir o'r farn fod NGET wedi ymgynghori'n ddigonol yn unol â darpariaethau adrannau 47, 42 a 48 y Ddeddf a'r bwriadau yr oedd wedi eu hamlinellu yn y Datganiad Ymgynghori Cymunedol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn bryderus iawn ac yn siomedig nad yw'r lefel o fanylder a ddarparwyd mewn perthynas ag elfennau'r cynnig, fel y cyfeiriwyd ato uchod, wedi galluogi ymgynghoriad ystyrllon fel y byddai disgwyl ar brosiect o arwyddocâd cenedlaethol.

Barn CSYM yw, er bod NGET wedi 'ymgynghori', nid yw wedi 'ymgysylltu' yn ystyrllon gyda thirfeddianwyr lleol, preswylwyr a grwpiau. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn llwyr ymwybodol nad hwn yw'r unig DCO sy'n cael ei brosesu ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac yn naturiol bydd partïon â diddordeb yn cymharu dulliau'r naill ymgeisydd a'r llall. Er bod y Cyngor Sir o'r farn bod diffyg manylder yn ymgynghoriad Pŵer Niwclear Horizon ar ei DCO o ran rhai agweddau, roedd PNH at ei gilydd yn llawer iawn mwy gweledol a hygyrch yn lleol na NGET, ac arweiniodd hynny at greu ymdeimlad o 'ymgysylltu' lleol yn hytrach nac 'ymgynghori' yn unig. Mae'r Cyngor Sir yn credu'n gryf y dylai'r diffygion y tynnwyd sylw atynt uchod, mewn perthynas ag ymgysylltu wrth ymgynghori ar y prosiect, gael eu mynegi wrth NGET er mwyn sicrhau bod eu hymgysylltiad yn y dyfodol, wrth iddynt ymgynghori, fod yn fwy effeithiol ac eu bod yn ceisio ymgysylltu o ddifri gyda'r gymuned leol a mynd i'r afael â'u pryderon.

## **Yn gywir**



**DYLAN J. WILLIAMS**

Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service - Regulation and Economic Development

## **Atodiad A: Cronoleg o Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais yr Ymgeisydd gyda CSYM**

### Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais Cam 1, Ionawr 2011-Rhagfyr 2012

- Ymgynghoriad ar opsiynau strategol, opsiynau cysylltiad a ffefrir ac opsiynau coridorau llwybr. Cynhaliwyd gweithdy Cam 1 i drafod Opsiynau Strategol.
- CSYM yn ymateb yn ffurfiol i NGET, llythyr dyddiedig 01/07/11 a 19/09/11
- Canlyniad cychwynnol y gwerthusiad Lefel 1, lleihau'r Opsiynau Strategol i 3 opsiwn. Llythyrau CSYM dyddiedig 15/12/11, 05/09/12, 28/07/11, 04/11/12, 11/01/11 a 24/02/12
- Ymateb llawn CSYM dyddiedig 18/12/12, yn cynnwys adroddiad i'r Cyngor Llawn.

### Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais Cam 2, Mawrth 2013-Rhagfyr 2015

- Ymgynghoriad Cam 2 ar opsiynau llwybr o fewn y coridor llwybr a ffefrir. Amlinelliad o Lwybr/Lleoliad (Nodyn Briffio 2) i nodi coridorau eang posib ar gyfer llwybr trosglwyddo newydd o fewn yr holl opsiynau strategol. Roedd Cam 2 yn ystyried y llinellau uwch ben rhwng Wylfa a Phentir a llwybrau ar gyfer ceblau tanddaear yn Aber Glaslyn. Llythyr CSYM dyddiedig 27/02/14 ac adroddiad Arup.
- Nodyn Briffio Cam 2 yn cael ei gyhoeddi gan NGET i gyflwyno opsiynau lliniaru ac opsiynau terfynol ar gyfer y coridor cyfan ynghyd â chanlyniadau gwerthusiadau amgylcheddol, cymdeithasol-economaidd, technegol a chost. Ymateb gan CSYM gydag adroddiad gan Arup ar ran CSYM a Chyngor Gwynedd.
- Ymateb llawn y Cyngor i'r ymgynghoriad Cam 2.

### Ymgynghoriad Statudol Cyn Cyflwyno Cais Cam 3 – adran 42

- Cynhaliodd NGET ymgynghoriad statudol adran 42 rhwng 5/10/16 a 16/12/16
- Cynigion manwl yn cynnwys gwaith lliniaru, gwaith adeiladu, lonydd mynediad ac addasiadau i'r briffordd.
- Llythyr dyddiedig 14/12/16 ac adroddiad i'r Cyngor Llawn

### Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno Cais Cam 4

- Cynhaliodd NGET ymgynghoriad ar y Datganiad Amgylcheddol Drafft gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys CSYM mewn 4 cam rhwng 15/12/17 a 23/2/18, er i rai dogfennau ddilyn yn ddiweddarach.
- Ymatebodd CSYM ar y dyddiadau canlynol: 19/01/18, 15/02/18, 26/02/18, 13/03/18, 14/03/18 a 26/03/18.
- Cynhaliwyd gweithdy ar y Strategaeth Gwella Drafft ar 12/06/18.
- Cynhaliwyd gweithdy ar gynlluniau arfaethedig i groesi'r Fenai ar 20/08/18

**Atodiad B: Ymatebion CSYM i Ddatganiadau Ymgynghori Cymunedol NGET**

- a) Drafft Cyntaf Datganiad Ymgynghori Cymunedol NGET i CSYM Mawrth 2016
- b) Ymateb CSYM i ddrafft cyntaf y Datganiad Ymgynghori Cymunedol dyddiedig 4 Ebrill 2016
- c) Ymateb NGET i lythyr CSYM dyddiedig 11 Ebrill 2016
- d) Cyhoeddi drafft terfynol NGET o'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol dyddiedig 9 Mai 2016
- e) Llythyr CSYM ynglŷn â'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol dyddiedig 08 Mehefin 2016
- f) Llythyr CSYM ynglŷn â'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol diwygiedig dyddiedig 22 Awst 2016
- g) Ymateb NGET i CSYM ynglŷn â'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol diwygiedig dyddiedig 2 Tachwedd 2016

Gellir gweld sylwadau CSYM a wnaethpwyd mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol yn Nhabl 1 10.1 (p728) o Gyfrol 6.1 o gyflwyniad DCO NGET dan y teitl :-

- i. Adroddiad ymgynghori
- ii. Grid Cenedlaethol (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)
- iii. Rheoliad 5(2)(q) o'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 ac Adran 37(3)(c) ac Adran 37(7) o Ddeddf Cynllunio 2008

## Atodiad C: Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

## Asesiad o Gydfurfiadaeth yr Ymgeisydd â'i Ddatganiad o Ymrwymadau Ymgynghori Cymunedol a gyhoeddwyd

Ymrwymadau NGET a wnaed yn y Datganiad Ymgynghori Cymunedol (SoCC)	Sylwadau CSYM ar weithgareddau NGET	A wnaeth NGET gydymffurfio a'u hymrwymiad (SoCC)?	
<b>Dogfennau cymunedol</b>	<b>Cylchlythyr:</b> caiff hwn ei bostio i gyfeiriadau yn yr ardaloedd lle rydym yn ymgynghori	Mae cylchlythyrau wedi eu darparu drwy'r post i drigolion a busnesau o fewn y parth ymgynghori.	DO
	<b>Trosolwg:</b> crynodeb annhechnegol o'r cynlluniau	Cynhyrchwyd crynodeb annhechnegol o'r cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad adran 42 ym mis Hydref 2016. Mae CSYM wedi cadw tystiolaeth copi caled.	DO
	<b>Dogfen holi ac ateb:</b> cwestiynau am ein cynlluniau a'n hatebion ni iddynt	Cynhyrchwyd dogfen cwestiwn ac ateb ar gyfer yr ymgynghoriad Adran 42 ym mis Hydref 2016. Mae CSYM wedi cadw tystiolaeth copi caled.	DO
	<b>Ffurflen ymateb:</b> holiadur i gasglu barn pobl am ein cynlluniau	Cynhyrchwyd ffurflen adborth ar ffurf holiadur er mwyn casglu safbwyntiau ar y cynigion ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad Adran 42 ym mis Hydref 2016.	DO
	<b>Ffotogyfosodiadau:</b> nifer o ffotogyfosodiadau yn dangos lleoliad a main arfaethedig y seilwaith wrth edrych o wahanol fannau	Mae nifer o ffotogyfosodiadau o'r ffordd y bydd y cysylltiad yn edrych yn ymddangos ar wefan y prosiect <a href="http://northwalesconnection.com/image-library.aspx">http://northwalesconnection.com/image-library.aspx</a>	DO
<b>Deunyddiau ychwanegol</b>	<b>Gwefan:</b> gwefannau Cymraeg a Saesneg y prosiect	Gwefannau prosiect Cymraeg a Saesneg wedi eu datblygu yn <a href="http://northwalesconnection.com/default.aspx">http://northwalesconnection.com/default.aspx</a> <a href="http://www.cysylltiadgogleddcymru.com/">http://www.cysylltiadgogleddcymru.com/</a>	DO
	<b>Cyfryngau cymdeithasol:</b> bydd gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg drwy gyfrif Twitter y Prosiect (@NGNorthWales)	Mae ffrwd Twitter a blog prosiect yn ymddangos ar wefan NGET.	DO
	<b>Delwedd 3D:</b> ein cynlluniau yn ddigidol gan ddangos sut y byddant	Mae cynlluniau digidol sy'n dangos sut y byddant yn edrych ar y tirlun o wahanol safbwyntiau yn ymddangos ar wefan y prosiect	DO



SWYDDOGOL

	yn edrych yn y dirwedd o wahanol safbwyntiau	<a href="http://northwalesconnection.com/project-films.aspx">http://northwalesconnection.com/project-films.aspx</a>	
	<b>Ffilmiau gyrru trwy'r llwybr:</b> ffilmiau byr yn defnyddio delweddu 3D i deithio trwy rannau o'r llwybr	Gellir gweld ffilmiau byr yn defnyddio delweddu 3D i deithio trwy rannau o'r llwybr ar wefan y prosiect. <a href="http://northwalesconnection.com/project-films.aspx">http://northwalesconnection.com/project-films.aspx</a>	DO
	<b>Ffilmiau tîm y prosiect:</b> ffilmiau byrion aelodau o dîm y prosiect yn siarad mewn iaith ddealladwy am eu harbenigedd	Mae ffilmiau byrion o aelodau o dîm y prosiect yn siarad am wahanol agweddau o'r prosiect yn ymddangos ar wefan y prosiect <a href="http://northwalesconnection.com/project-films.aspx">http://northwalesconnection.com/project-films.aspx</a>	DO
	<b>Cof bach USB:</b> fersiynau digidol o'n deunyddiau cymunedol a'n dogfennau technegol	Roedd cof bach USB yn cynnwys amrywiaeth o adroddiadau a gwybodaeth ar gael yn y digwyddiadau ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgynghori ynghyd ag adroddiadau a dogfennau mwy technegol.	DO
<b>Lleoliadau digwyddiadau, gwybodaeth a chanolfannau cyfeirio</b>	<b>Digwyddiadau cymunedol:</b> digwyddiadau mewn neuaddau cymuned yn y trefi a'r pentrefi agosaf at y cylluniau (Yn Ynys Môn – Talwrn, Llanfairpwll, Capel Coch, Rhosybol, Llanfechell. Yn Gwynedd – Bangor)	Cafodd yr holl ddigwyddiadau hyn eu trefnu a'u cynnal gan NGET a hynny yn y lleoliadau a ddynodwyd yn ystod y cyfnod 26 Hydref a 15 Tachwedd 2016	DO
	<b>Digwyddiadau yng ngherbyd yr ymgynghoriad:</b> yn canolbwyntio ar lefydd poblog y mae pobl yn mynd iddynt yn rheolaidd fel rhan o'u bywyd bob dydd. (Yn Ynys Môn - Cemaes, Porthaethwy, Llanerchymedd, Llangefni, Llanfairpwll, Amlwch. Yn Gwynedd – Bangor)	Cynhaliwyd naw digwyddiad yng ngherbyd ymgynghori National Grid, yn y lleoliadau a nodwyd (ddwywaith yn Llangefni), rhwng 27 Hydref 2016 a 11 Tachwedd 2016.	DO
	<b>Gwib-ddigwyddiadau:</b> digwyddiadau hyn yn gyfle i ddysgu mwy am y prosiect a sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. (Yn Ynys Môn – Porthaethwy,	Cynhaliwyd pedwar gwib-ddigwyddiad yn y lleoliadau a nodwyd rhwng 2 Tachwedd 2016 a 11 Tachwedd 2016.	DO

SWYDDOGOL

	Llangefni. Yn Gwynedd – Bangor, Caernarfon)		
	<b>Ymholiad a gwybodaeth:</b> llinell ymholiad rhadffôn yn Gymraeg a Saesneg	Roedd rhif rhadffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad rhadbost ar gyfer y prosiect ar gael drwy NGET ar gyfer y prosiect	DO
	<b>Canolfannau gwybodaeth:</b> nifer o fannau gwybodaeth mewn lleoedd sy'n denu nifer fawr o bobl ac sy'n agored i'r cyhoedd. (Yn Ynys Môn - Amlwch, Biwmares, Brynteg, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, Llandegfan, Llanfechell, Llangefni, Penmynydd, Porthaethwy, Rhosybol. Yn Gwynedd – Bangor, Caernarfon, Rhiwlas)	Roedd canolfannau gwybodaeth ar gael drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cafodd eu hargaeledd ei hysbysebu yng nghylchlythyr y prosiect. Yn ychwanegol at y lleoliadau a ddangosir yn y Datganiad Ymgynghoriad cymunedol, cafodd pwynt gwybodaeth ychwanegol hefyd ei ddarparu yn Llyfrgell Biwmares.	DO
	<b>Canolfannau cyfeirio:</b> deunyddiau cymunedol, mapiau, adroddiadau manwl a phlantiau ar gael i'r cyhoedd mewn rhai llyfrgelloedd a lleoliadau dineig addas. (Yn Ynys Môn – Amlwch, Benllech, Biwmares, Caergybi, Llangefni, Porthaethwy, Cemaes. Yn Gwynedd – Bangor, Caernarfon)	Roedd copïau cyfeirio o'r dogfennau ymgynghori ar gael i'w gweld o ddechrau'r Ymgynghoriad Tri Cam statudol. Cafodd copïau eu harddangos yn llyfrgelloedd cyhoeddus CSYM yn y lleoliadau penodol. Cafodd copïau cyfeirio hefyd eu cadw ym mhrif swyddfeydd CSYM yn Llangefni ac hefyd yng Nghanolfan Fusnes Ynys Môn.	DO
<b>Cyhoeddusrwydd</b>	<b>Cylchlythyr drwy'r post:</b> cylchlythyr i gartrefi a busnesau yn ein hardal ymgynghori	Mae cylchlythyrau wedi eu darparu drwy'r post i drigolion a busnesau o fewn y parth ymgynghori.	DO
	<b>Hysbysebu:</b> mewn papurau lleol fel y Daily Post, yr Holyhead & Anglesey Mail a'r North Wales Chronicle	Cynhaliodd NGET ymgyrch hysbysebu dwyieithog helaeth o dan y teitlau a nodwyd yn y Datganiad Ymgynghori Cymunedol er mwyn hyrwyddo digwyddiadau a chanolfannau gwybodaeth i gynulleidfa ehangach. Yn ogystal, hysbysebwyd yn Gymraeg yn unig yn y cylchgrawn Cymraeg cenedlaethol, Golwg.	DO
	<b>Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau:</b> datganiadau i amrywiaeth eang o gyfryngau lleol a	Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg drwy gydol y broses ymgynghori gan NGET i bapurau lleol a	DO

SWYDDOGOL

	rhanbarthol yn tynnu sylw at gerrig milltir yn yr ymgynghoriad	rhanbarthol. Rhoddwyd sylw hefyd gan y darlledwyr teledu a radio cenedlaethol a lleol.	
	<b>Poster:</b> cyhoeddi dyddiadau'r ymgynghoriad a lleoliadau'r digwyddiadau	Roedd poster ar gael mewn perthynas â'r digwyddiadau ymgynghori ac fe gawsant eu dosbarthu a'u rhannu gan gynghorau tref a chymuned, busnesau lleol gan gynnwys atyniadau twristiaeth ynghyd â CSYM a gwahanol Adrannau.	DO
	<b>Hysbysiadau drwy neges destun:</b> at bawb sydd wedi cofrestru yn Gymraeg ac yn Saesneg	Roedd gwasanaeth tanysgrifio i negeseuon testun ar gael ar wefan y prosiect NGET	DO
	<b>Negeseuon ebost i danysgrifwyr ar y wefan:</b> pawb sydd wedi cofrestru i gael negeseuon ebost	Roedd gwasanaeth tanysgrifio i negeseuon e-bost ar gael ar wefan NGET er i ddatblygiad y prosiect ddechrau yn 2012.	DO
	<b>Twitter:</b> manylion am yr ymgynghoriad, lle i gael gwybodaeth, a manylion a dyddiadau digwyddiadau yn cael eu trydar yn aml o gyfrif twitter y Prosiect @NGNorthWales	Mae NGET wedi cynnal cyfrif Twitter er mwyn darparu diweddariadau am brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a digwyddiadau sydd ar y gweill drwy gydol yr ymgynghoriad statudol	DO
<b>Grwpiau anodd eu cyrraedd</b>	<b>Digwyddiadau:</b> galluogi grwpiau o bobl sy'n brin o amser (fel pobl sy'n gweithio llawn amser neu rai â theuluoedd ifanc) gymryd rhan yn yr ymgynghoriad wrth fynd o gwmpas eu gweithgareddau bob dydd	Cafodd digwyddiadau eu hamrywio o ran amser a lleoliad er mwyn galluogi cynifer o unigolion â phosibl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a hynny ar adegau oedd yn gyfleus iddyn nhw	DO
<b>Grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd</b>	<b>Cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd:</b> i ganfod cyrff sy'n cynrychioli'r bobl hyn gyda gofynion penodol ar gyfer cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Darparu fersiwn sain o gylchlythyr y prosiect ar y cyd â'r RNIB	Bu NGET adnabod rhestr o grwpiau anoddach eu cyrraedd yn eu Datganiad Ymgynghori Cymunedol ac fe gafwyd ar ddeall hefyd eu bod wedi cysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau o'r fath er mwyn iddynt allu rhannu gwybodaeth ag aelodau. Yn ogystal, cynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau ar gyfer ymgynghori yn y gymuned mewn print bras ac roedd sylwebaeth sain o gylchlythyr y prosiect ar gael.	DO
	<b>Preliminary Environmental Information Report (PEIR):</b> asesiadau cychwynnol o natur a	Roedd yr holl adroddiadau hyn yn ffurfio rhan o'r deunyddiau a oedd ar gael ar wefan y prosiect, mewn canolfannau cyfeirio, mewn digwyddiadau	DO

SWYDDOGOL

<p><b>Adroddiadau technegol (dim ond yn Saesneg y byddent ar gael ar wefan y prosiect)</b></p>	<p>maint effeithiau amgylcheddol tebygol o'r cynlluniau</p> <p><b>Preferred Route Option Selection Report:</b> i esbonio sut y dewiswyd y llwybr posibl a ffefrir</p> <p><b>Draft Route Alignment Report:</b> i esbonio sut y dewiswyd aliniad y llwybr a ffefrir</p> <p><b>Menai Strait Crossing Report:</b> i esbonio'r dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer croesi Afon Menai, sut yr aseswyd y dewisiadau a sut y dewiswyd y dull a ffefrir</p>	<p>galw heibio a digwyddiadau cerbydau ac roeddent hefyd ar gael ar gof bach USB.</p>	
<p><b>Pobl sy'n ymweld â'r ardal a thwristiaid</b></p>	<p><b>Gofyn i ganolfannau croeso lleol:</b> gadw gwybodaeth am yr ymgynghoriad</p>	<p>Does gan CSYM ddim Canolfannau Gwybodaeth Twristiaeth fel y cyfryw ond mae'n cefnogi rhwydwaith o Bwyntiau Gwybodaeth Twristiaeth. Darparodd NGET wybodaeth i'r Canolfannau Gwybodaeth Twristiaeth ar ddechrau'r broses ymgynghori yn hysbysebu'r lleoliadau / dyddiadau ac ati o ddigwyddiadau amrywiol.</p>	<p>DO</p>
	<p><b>Ysgrifennu at fusnesau perthnasol:</b> (fel atyniadau ymwelwyr, gwestai, tai llety a pharciau carafanau yn yr ardal ymgynghori) i roi manylion yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan &amp; gofyn a ydynt yn fodlon cadw nifer o ddeunyddiau'r ymgynghoriad i ymwelwyr gael eu gweld yn ystod yr ymgynghoriad</p>	<p>Mae CSYM yn deall bod NGET wedi rhoi copïau o gylchlythyr y prosiect i fusnesau, tafarndai a chaffis ynghyd â chylchlythyrau prosiect a phosteri yn hysbysebu digwyddiadau ymgynghori ar ddechrau'r broses ymgynghori ffurfiol.</p>	<p>DO</p>
<p><b>Ymgynghoriad datblygwyr eraill</b></p>	<p><b>Sicrhau bod penawdau am ymgynghoriad Horizon ar gael:</b> yn digwyddiadau a chyfeiriadau ato y nein deunyddiau ymgynghori ac ar-lein, gan esbonio sut y gall pobl ddysgu mwy a chymryd rhan yn ymgynghoriad Horizon &amp; sicrhau</p>	<p>NGET a Phŵer Niwclear Horizon - er mwyn osgoi gwrthdaro dyddiadau ar gyfer digwyddiadau priodol, roedd cylchlythyrau NGET, lle'n bosibl, yn tynnu sylw at ddigwyddiadau Pŵer Niwclear Horizon ac yn ceisio darparu cyd-destun mewn perthynas â'r gwahanol brosiectau ac ymgynghoriadau. Fe wnaeth y ddau ddatblygwr</p>	<p>DO</p>

SWYDDOGOL

	bod unrhyw ymateb i gynlluniau Horizon a gyflwynir i'n prosiect ni yn cael ei drosglwyddo i'w tîm cysylltiadau cymunedol nhw	hefyd gydweithio ar amserlen ar y cyd a rannwyd ar wefannau ac mewn dogfennau amrywiol eraill.	
<b>Ceisiadau am ddogfennau</b>	<b>Ymateb i geisiadau rhesymol:</b> am ragor o gopïau o ddogfennau	Mae CSYM yn cael ar ddeall bod NGET wedi ymateb i'r holl geisiadau o'r fath. Ceir ar ddeall hefyd na chafodd unrhyw rai eu derbyn gan aelodau o'r gymuned.	DO



**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.  
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFN  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499  
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams  
E-bost / Email: [DylanWilliams@ynysmon.gov.uk](mailto:DylanWilliams@ynysmon.gov.uk)  
Ein Cyf / Our Ref: IACC/PMO/NGETAoC2018  
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 21 September 2018

Mr H Jones  
Case Manager  
The Planning Inspectorate  
National Infrastructure  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol  
BS1 6PN

Dear Mr Jones,

**Planning Act 2008 – Section 55**  
**Application by National Grid Electricity Transmission plc for an Order granting**  
**Development Consent for the North Wales Connection Project**  
**Adequacy of consultation request**

**PINS Ref Number: EN020015**

Thank you for your letter dated 07/09/2018 inviting the Isle of Anglesey County Council (“County Council”) to submit its representations regarding the applicant’s (“NGET”) compliance with S.42, S.47 and S.48 of the Planning Act 2008 (“the Act”) in carrying out consultation on the proposed North Wales Connection Project.

The following sets out the County Council’s view on the adequacy of:-

